

Clywed Llais y Tenantiaid Yn Rheoliad Cymdeithasau Tai yng Nghymru

Pwy sy'n Rheoleiddio Cymdeithasau Tai yng Nghymru?

Tîm Rheoleiddio Tai Llywodraeth Cymru sydd yn rheoleiddio cymdeithasau tai cofrestredig yng Nghymru, a elwir hefyd yn 'Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig'.

Nod y reoleiddio yw:

- diogelu diddordebau tenantiaid a defnyddwyr gwasanaeth eraill nawr ac yn y dyfodol
- sicrhau bod tai cymdeithasol o ansawdd da, o ran cwrdd â Safon Ansawdd Tai Cymru, gwasanaethau sy'n diwallu anghenion tenantiaid, gwerth am arian a hyfywedd ariannol
- cynnal hyder arianwyr sy'n benthyg i gymdeithasau tai (e.e. banciau a chymdeithasau adeiladu)

Mae gwaith y Tîm Rheoleiddio yn cael ei oruchwylio gan Fwrdd Rheoleiddio Cymru.

Beth yw Bwrdd Rheoleiddio Cymru?

Mae Bwrdd Rheoleiddio Cymru yn bodoli er mwyn dwyn i gyfrif Tîm Rheoleiddio Llywodraeth Cymru.

Mae'r Bwrdd yn annibynnol ac yn cynnwys ffigurau tai allweddol o bob rhan o'r DU. Diben y Bwrdd yw archwilio perfformiad rheoleiddio a gweithgarwch Llywodraeth Cymru a'r sector tai. Mae'r Bwrdd hefyd yn cynghori Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant, Carl Sargeant, ar y perfformiad a goblygiadau polisi cysylltiedig.

Mae deall a chlywed barn tenantiaid cymdeithasau tai yn bwysig i'r Bwrdd fel bod pryderon a diddordebau tenantiaid yn cael eu hadlewyrchu yn eu gwaith.

Sut fydd llais tenantiaid yn cael eu clywed gan y Bwrdd?

Mae deall a chlywed barn tenantiaid cymdeithasau tai yn bwysig i waith y Bwrdd fel y gallant sicrhau bod rheoleiddio'n gweithio. Maent yn awyddus i allu cael gwybodaeth

am flaenoriaethau a phryderon cyffredinol tenantiaid a barn ar feysydd blaenoriaeth bwysig i'r Bwrdd, megis gwerth am arian.

Mae'r Bwrdd yn awyddus i allu casglu barn tenantiaid o ystod eang o denantiaid; yn ddaearyddol, o bob cefndir a thenantiaid nad ydynt yn cymryd rhan gyda'u landlordiaid ar hyn o bryd. Er mwyn gwneud hyn, bydd y Bwrdd yn gweithio gyda TPAS Cymru a fydd yn sefydlu ystod o ffyrdd i denantiaid i gymryd rhan gyda gwaith y Bwrdd.

Bydd y rhain yn cynnwys casglu barn tenantiaid mewn rhwydweithiau tenantiaid a digwyddiadau rhanbarthol ; grwpiau ffocws a fforymau i drafod materion penodol.

Bydd TPAS Cymru hefyd yn sefydlu ffyrdd i gael mwy o denantiaid i gymryd rhan a rhannu eu barn drwy ddulliau ar-lein a chyfryngau cymdeithasol. Bydd hyn yn cynnwys sefydlu cronfa ddata 'Pwls Tenantiaid' newydd o denantiaid sydd â diddordeb mewn rhannu eu safbwynt trwy e-bost neu drwy'r post.

Bydd y dull newydd o gynnwys tenantiaid gyda'r Bwrdd Rheoleiddio yn cael ei gyflwyno o fis Ebrill 2017, ac yn cael ei fonitro drwy Grŵp Llywio 'Gwneud Iddo Weithio'.

Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant (yn cynnwys Tai)



Bwrdd Rheoleiddio Cymru



Casglu barn, pryderon a blaenoriaethau tenantiaid drwy:

- Digwyddiadau a rhwydweithio rhanbarthol wyneb yn wyneb
 - 'Pwls Tenantiaid' – ymgynghoriad ar-lein neu bost
 - Fforymau diddordeb arbennig a grwpiau ffocws

(TPAS Cymru)

Sut alla i gael rhagor o wybodaeth?

Gallwch gysylltu â TPAS Cymru am ragor o wybodaeth neu i fynegi diddordeb i fod yn rhan o'r gronfa ddata 'Pwls Tenantiaid'.

enquires@tpas.cymru

Post: TPAS Cymru, 77 Conway Rd, Bae Colwyn, Conwy, LL29 7LN

Ffôn: 01492 593046 / 02920 237303